# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 9fed o Orffennaf 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng D Lewis, P Walton, W Evans, J Lewis (CSC) and K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Phillips, G Evans, H James, R Gallie.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 21fed o Fai a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI**: Dim

**PROSIECT GOLAU CYMUNEDOL:**

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth CSC am gynnig i newid yr unedau golau sodium am unedau LED. Trafododd y Cyngor y cynnig a penderfynwyd derbyn y cynnig.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd cais oddi wrth CSC i'r Cyngor enwebu rhywun i fod yn gynrychiolydd Awdurdod Llai ar Gorff Llywodraethu Ysgol Bro Brynach. Gan fod dau gynrychiolydd gan y Cyngor ar y Corff Llywodraethu yn barod penderfynwyd i beidio enwebu neb.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Watkins Partnership – rhent tir | £154.13 |
| Western Power Distribution – taliad wayleave | £38.56 |
| GVO wind No 39 – lles cymunedol | £2436.09 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| K. Bowen – cyflog y clerc 2018/19 | £800.00 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £24733.45 |
| Cyfrif Busnes | £2437.16 |

Cytunodd y Cyngor i symud £2400.00 o'r cyfrif Busnes i'r cyfrif Trysorydd gan fod pryniant y cae chwarae fod gael ei gwblhau yn fuan.

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Dim

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb fynychodd a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 17eg o Fedi am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**